Cwestiynau Cyffredin

Beth yw VR?

Realiti Rhithwir yw VR (*Virtual Reality*). Nod technoleg Realiti Rhithwir yw creu delwedd neu amgylchedd tri dimensiwn sy'n teimlo'n real i berson, a hyd yn oed amgylchedd y gallwch ryngweithio ag ef mewn ffyrdd realistig. Caiff hyn ei wneud drwy ddefnyddio penwisg VR a rheolwyr neu dracio llaw. Mae'n brofiad sy'n galluogi person i ymgolli'n llwyr, a rhyngweithio gyda byd hollol wahanol.

Oes terfyn oedran ar gyfer y profiad hwn?

Oherwydd maint yr offer a chynnwys deallusol y profiad, rhaid bod yn 13 oed neu'n hŷn.

A oes unrhyw gyfyngiadau ar gyfer defnyddio'r profiad VR?

Yn ogystal â'r terfyn oed, mae ffurflen ymwadiad sy'n amlygu'r risgiau posibl a all godi o ganlyniad i brofiad VR, a rhestr o gyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes a all gael eu heffeithio gan brofiad VR. Bydd yn rhaid i chi lofnodi'r ffurflen ymwadiad cyn i chi allu cymryd rhan yn y profiad. Rhaid i blant o dan 18 oed gael rhiant neu warcheidwad cyfreithiol i lofnodi'r ffurflen. Ni fydd unrhyw un yn gallu defnyddio'r Profiad VR heb ffurflen ymwadiad wedi'i llofnodi.

All unigolion gydag anableddau gymryd rhan yn y profiad?

Gellir defnyddio cadair olwyn yn y profiad os nad oes modd i ddefnyddiwr cadair olwyn eistedd yn y gadair bwrpasol.

Gall ymwelwyr gydag anableddau dysgu ddewis llwybr mwy llonydd, llai cynhyrfus drwy'r profiad.

Bydd y cyfyngiadau a nodwyd yn yr ymwadiad dal yn gymwys.

A yw'r profiad yn un dwyieithog?

Mae'r profiad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Fydda i'n symud o gwmpas yn ystod y profiad?

Byddwch yn eistedd drwy gydol y profiad. Bydd unrhyw ryngweithio yn digwydd gan ddefnyddio eich breichiau a'ch dwylo yn unig.

Alla i wisgo sbectol?

Mae'n dibynnu ar faint y sbectol a'r hyn sy'n gyffyrddus i chi. Mae llawer o bobl yn hapus i wisgo eu sbectol o dan y penwisg VR. Mae'r lensys yn eithaf agos at eich llygaid, felly oni bai eich bod yn rhy fyr eich golwg, efallai na fyddwch chi angen eich sbectol. Fodd bynnag, rydym yn argymell eich bod yn dod â nhw gyda chi. Mae lensys cyffwrdd hefyd yn gweithio.

Pa mor hir yw'r profiad?

Bydd y profiad yn para tua 15–20 munud gan gynnwys yr amser y bydd yn ei gymryd i ffitio'r penwisg.

Pa offer sydd gennych chi?

Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio penwisg HTC Vive gyda sain wedi'i fewnosod, sy'n rhoi sain amgylchynol 3D i bob chwaraewr. Mae pob penwisg wedi'i gysylltu i gyfrifiadur gemau o safon uchel, sy'n pweru'r golygfeydd gweledol a'r byd tri dimensiwn a welwch chi yn y profiad. Mae'r rhyngweithio yn gweithio drwy dracio llaw. Mae'n bosibl y bydd rhaid i chi dynnu modrwyau mawr i ffwrdd i sicrhau fod y synwyryddion yn nodi symudiadau llaw. Mae'r gadair hefyd yn efelychu symudiadau.

Allwn ni archebu lle ar-lein?

Gallwch, rydyn ni'n argymell hyn. Dilynwch y ddolen ar y wefan i brynu tocyn cyn eich ymweliad. Os oes tocynnau ar ôl, mae'n bosibl y gallwch brynu rhai ar y diwrnod. Nifer cyfyngedig o docynnau sydd, gyda slot amser i bob tocyn. Unwaith y byddwch wedi prynu tocyn, fydd dim modd newid yr amser.

Beth fydd yn digwydd os bydda i'n hwyr ar gyfer fy slot amser?

Oherwydd yr amseru, nid oes modd gadael pobl sy'n hwyr i mewn, ac ni fydd unrhyw docynnau yn cael eu had-dalu.

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n teimlo'n sâl?

Bydd aelod o staff yn bresennol yn ystod eich profiad. Os ydych chi'n teimlo'n sâl, rhowch wybod iddyn nhw a byddant yn eich helpu chi. Gall defnyddwyr dynnu'r penwisg i ffwrdd ar unrhyw adeg.

Ad-daliadau

Ni fyddwn yn ad-dalu tocynnau oni bai fod y profiad yn gorfod cau oherwydd argyfwng neu nam technegol. Yn yr achos hwn, cadwch eich tocyn a byddwn yn ad-dalu'r pris llawn i chi.

A yw'r wybodaeth yn y profiad yn ffeithiol?

Mae'r profiad yn adrodd stori taith trwy amser daearegol ac mae pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod manylion y tirlun, planhigion ac anifeiliaid yn gywir ar gyfer y cyfnodau amser.

Alla i ddod o hyd i'r sbesimenau o'r profiad yn yr Amgueddfa?

Mae'r samplau a ddefnyddiwyd yn y profiad i'w gweld yn oriel Esblygiad Cymru yn yr Amgueddfa.